

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol
Mai 15fed, 2018**

Presennol: Tyly Roberts (Is-Gadeirydd), Geraint Roberts, Gwyn Roberts, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

- 1 Croesawyd pawb gan Tyly Roberts a derbyniwyd ymddiheuriadau Emyr Jones, Eleri Jones a Huw Roberts.
- 2 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 15 Mai 2017.
- 3 Etholwyd Tyly Roberts yn Gadeirydd am y flwyddyn 2018—19.
- 4 Etholwyd Geraint Roberts yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2018—19.
- 5 Enwebwyd W D Williams yn gynrychiolydd y Cyngor i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.
- 6 Enwebwyd Tyly Roberts a W D Williams yn gynrychiolwyr y Cyngor ar Bartneriaeth Penllyn.
- 7 Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheolau Sefydlog.
- 8 Adolygwyd a chadarnhawyd y Côt Ymddygiad.
- 9 Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheoliadau Ariannol.
- 10 Cadarnhawyd parhau gyda'r Cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd.
- 11 Adolygwyd a chadarnhawyd y trefniadau yswiriant; cytunwyd i ychwanegu'r 2 di-ffib yn y 2 giosg fel asedau'r Cyngor.
- 12 Apwyntiwyd Luned Fôn yn Archwilydd Mewnol ar gyfer 2018—19.
- 13 Cadarnhawyd Cofrestr Datganiad Buddiant am y flwyddyn 2017-18.
- 14 Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd 2018—19 sef

Mai 15

2 Gorffennaf

10 Medi

Tachwedd 12

Ionawr 14

Chwefror 25

Mai 13

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)(Clerc)